

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

## Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 11 Chwefror, 2021 am 19.00

### 1. PRESENNOL:

#### Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

#### Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Geraint Hughes.**

**2. Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Dafydd K Jones.

### 3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr, 2021.

### 4. Materion yn codi o'r cofnodion

**Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth** – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am diweddariad, ac i nodi bod y ffermwr wedi cynnig cwblhau'r gwaith ei hun pe bai Cyngor Gwynedd yn darparu'r pibellau. Cyng. Jên Morris wedi cysylltu yn uniongyrchol ynglyn a'r draen, yn ogystal ag adrodd am bobl ddim yn dilyn y llwybrau cyhoeddus. Cyng. Margaret Fernley i ddanfôn mapiau llwybrau cyhoeddus at Cyng. Jên Morris. Cyng. Kevin Williams wedi gwneud ymholiadau gyda Warden y Parc Genedlaethol Eryri, ac maent wedi cadarnhau y bydd dwy gamfa newydd yn gael ei osod ochrau Ciltwillan, a rhagwelwyd y bydd un o rhain yn helpu gyda'r mater bod rhai o'r cyhoedd ddim yn dilyn y llwybrau cyhoeddus.

**Wal Maes y Groes** – Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y bydd Dinas Contracting yn cwblhau'r gwaith cyn gynted a phosib. Y Clerc i wirio os ydynt wedi atgyweirio'r wal cywir.

**Clwb Rygbi Bangor** – pryderus am y golau llachar sydd ar y caeau dros y gaeaf. Traffig ar yr A55 yn cael eu dallu. Y Clerc wedi cysylltu gyda Elwyn Williams o'r clwb i drafod

pryderon y Cyngor, nodwyd bod yr goleuadau newydd wedi gael ei gosod oddeutu diwedd 2019. Nododd eu bod wedi derbyn cwyn yn y gorffennol ac bod y mater hwn bellach wedi'i ddatrys. Ni fydd yr goleuadau ymlaen nawr tan ddiwedd Medi oherwydd cyfyngiadau covid a tymor yr Haf. Y Cyngor i gysylltu ag ef yn y Hydref os yw ein pryderon dal yn bodoli.

**Ysbwriel/Biniau**– 3 bag ysbwriel oedd wedi gael ei adael yn ngwaelod Parc Main dal yno, nodwyd doedd swyddog Cyngor Gwynedd ddim yn gwybod ble roedd Parc Main. Y Cyng. Dafydd Meurig i ddanfôn rhif cyswllt y Cyng. Megan Tomos at swyddog Cyngor Gwynedd.

**Tai'n Lon** – y gwaith wrthi'n gael ei gwblhau, ychydig o oedi oherwydd fod y contractwyr wedi dod o hyd i beipen arall.

**Terfynau wal mynydd ochrau Dol Awen a Thy'n y Maes** – Stad Penrhyn wedi ymateb i egluro bod hwn yn fater i'r tenant ac eu bod nhw yn parhau i siarad gyda Mr David Williams mewn ymgais i gael y gwauth wedi'i gwblhau. Nodwyd Cyng. Kevin Williams fod grant ar gael ar gyfer atgyweirio'r wal, ond bydd angen i'r tenant wneud y cais.

**Paragleidio ar Moel Wnion** – wedi derbyn ymateb gan Gethin Evans, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn nodi does dim cytundeb yn ei le. Y Clerc i drefnu cyfarfod ar y safle gyda Cyng. Kevin Williams, Alun Thomas a swyddog o'r Ymddiriedolaeth.

**Biniau halen** – gwaith llenwi wedi gael ei gwblhau gan Cyngor Gwynedd.

**Eglwys Llan** – y contractwr wedi cwblhau'r gwaith. Cytunwyd bydd y Cyngor yn ariannu toriadau bychain yn ystod yr Haf, yn lle talu am un toriad mawr yn ystod y Gaeaf.

**Prosiect i Bartneriaeth Ogwen** – y Clerc i holi Meleri Davies am ddiweddariad.

**Beicio yng Nghoedwig Ty'n Hendre** – Y Clerc wedi cysylltu hefo Stad y Penrhyn, yr Heddlu a wedi danfôn ebost at Cyng. Dafydd Meurig. Adroddwyd y bydd Stad Penrhyn yn atgyweirio'r waliau ac yn rhoid arwyddion newydd wrth y safle, a gwnaethant ofyn i'r cynghorwyr ffonio'r heddlu ar 101 pryd mae beicwyr ar y safle. Cyng. Dafydd Meurig wedi codi'r mater gyda Cyngor Gwynedd, fodd bynnag, dywedwyd mai cyfrifoldeb y tîrfeddiannwr yw hyn.

**Top Allt Ty'n Hendre** – teiars wedi gael ei casglu o'r afon. Adroddwyd fod ychwaneg o ysbwriel wedi gael ei gadael ar hyd ffordd allt Ty'n Hendre, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

## 5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Tir a Choed	Torri a clirio Fynwent Llan	£500.00
Tir a Choed	Torri Llwybrau	£360.00

## 6. Sedd Wag

Derbyniwyd dwy gais am y sedd wag. Trafodwyd y ceisiadau yn drylwyr, ac yno yn dilyn pleidlais, gyfetholwyd Lowri Evans.

## 7. Rhoddion

Trafodwyd y rhestr rhoddion. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn. *(Datgan diddordeb pan fo angen)*

Llais Ogwan	£100.00
Dawns i bawb	£50.00
Theatr Bara Caws	£50.00
Ambiwlans Awyr Cymru	£300.00
Radio Ysbyty Gwynedd	£100.00
Rhodod at Elusen i helpu gyda Covid (Cyng. Megan Tomos i holi)	£300.00

## 8. Cae chwarae Tal y Bont

**Gardd Cymunedol** – Cyng. Evan Jones wedi cyfarfod ar y safle gyda Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Gwyrdd, ynglyn a grant Gerddi Cymunedol. Trafodwyd lleoliadau addas ar gyfer y prosiect. Huw Davies i ymateb ar ôl derbyn dyfynbrisiau gan y garddwyr.

**Datblygu Cae Pel-droed** - Cyng. Evan Jones wedi derbyn dyfynbris gan y contractwr am drac o amgylch y cae pêl-droed. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn trio gwneud cynllun, er mwyn ei gynnwys ar daflen ymgynghori a fydd yn cael ei gylchredeg i'r preswylwyr. Cyng. Alun Thomas i holi'r contractwyr am prosiect tebyg a gwblhawyd ganddynt yn y gorffennol.

## 9. Y Mynydd

Cyfarfod o'r is-bwyllgor wedi gael ei gynnal ar 2ail Chwefror 2021. Derbyniwyd ymateb gan Gethin Evans o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Y Clerc i drefnu cyfarfod rhwng y bugail ag aelodau'r pwyllgor mynydd cyn gynted a bu'r modd.

## 10. Gohebiaeth

**Cyflwynwyd** – Cyngor Tref Nefyn – Y Farchnad Dai Gwyliau – penderfynwyd cefnogi cais Cyngor Tref Nefyn, y Clerc i gwblhau'r llythyr dempled a'r ddanfôn ymlaen at Julie James AS.

**Cyflwynwyd** – Tir a Choed – Toriadau Eglwys Llan – trafodwyd o dan pwynt 4.

**Cyflwynwyd** – Cylch yr Iaith – Datblygiad arfaethedig ar dir gyferbyn a Maes Bleddyn – y Clerc i ofyn am ragor o wybodaeth a manylion ynglyn a'r ffigyrau, ac os oes adroddiad ar gael.

## 11. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

**Twll yn y ffordd ger y Wern** – Cyng. Megan Tomos wedi danfon lluniau at y Clerc, y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.

**Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Ogwen** – y Clerc wedi cylchredeg yr adroddiad i bawb. Y Clerc i ddiolch i Meleri Davies a holl staff Partneriaeth Ogwen am eu holl waith caled.

## 11. Penderfyniadau Cynllunio:

**C20/0154/21/CC**

Maes Carafannau Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n gorchymyn gwarchod coed

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C19/0950/21/LL**

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Codi 30 tŷ sy'n cynnwys 15 fforddiadwy, mynedfa newydd, parcio ynghyd a seilwaith cysylltiedig

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0504/21/LL**

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C20/0958/21/DT**

Tan Lon Cottage, Ffordd Aber, Talybont

Codi estyniadau ffenestri cromen yn edrychiad blaen yr eiddo ynghyd a chreu llecyn parcio preifat o fewn y cwrtil.

**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C20/1071/21/CT**

Pont Llan, Llanllechid

Cais ar gyfer gwneud torri 3 coeden cypreswydden a gwneud gwaith i goeden sycamorwydden oddi fewn i ardal gadwraeth Llanllechid

**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C21/0008/21/DT**

27 Bro Emrys, Talybont

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr ochr ynghyd ac estyniadau unllawr to un codiad i flaen a chefn yr eiddo

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**Ceisiadau Cynllunio:****C21/0078/21/CC**

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

**Penderfyniad:** Dim sylw.

**C21/0099/21/CC**

Ogwen Bank Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

**Penderfyniad:** Dim sylw.

**12. Materion Brys**

**Mynediad i'r Mynydd ger Caellawngrydd** – fan yn parcio ger y giat unwaith eto, y Clerc i hysbysu'r Heddlu eto.